

# Cofia Ddysgu Byw



Fe gafodd ein Gweledigaeth ysgol ei greu yn wreiddiol ym Mehefin 2022, a rhannywd hi gyda'r llywodraethwyr, rhieni, staff a disgyblion yr ysgol - fe gafodd pawb ymroi tuag at ein gwelediageth. Yn sgil Cwricwlwm i Gymru 2022, aethom ati i ail edrych ar ein gweledigaeth ysgol a gan ein bod wedi gwreiddio ein gweledigaeth yn y gwerthoedd mwyaf pwysig i ni - doedd fawr i newid o ran Gweledigaeth ein cwricwlwm. Mireiniwyd hi ar gyfer ein prospectws newydd yn 2021, ac fe'u rhannwyd ar ein cyfryngau cymdeithasol a gyda holl rhanddeiliad yr ysgol.

Yma yn Ysgol Melin Gruffydd ymfalchiwn yn ein gweledigaeth o gynnig profiadau a chyfleoedd i'n disgyblion, fel sail i'w dysgu. Rydym yn annog ein plant i geisio ar gyfleoedd, i fod yn uchelgeisiol, yn fentrus ac yn barod i ddysgu a chyfrannu fel dinasyddion yr 21ain ganrif.

Yn rhan annatod o'n rolau wrth ymchwilio i Gwricwlwm i Gymru, a thrafod nodweddion allweddol Cwricwlwm Ysgol Melin Gruffydd ac anghenion pob dysgwr yn ein hysgol - ydy'r weledigaeth a'r pedwar diben. Mae'r staff wedi cydweithio gyda rhydweithi o athrawon eraill, gan gynnwys staff ein clwstwr i gefnogi ei gilydd er mwyn cynllunio'r cwricwlwm. Rydym hefyd wedi cydweithio gyda'r consortiwm, yr awdurdod leol ac asiantaethau lleol.

Profiadau sbardunol sydd yn arwain addysgeg ein Meysydd Dysgu, sy'n cydblethu sgiliau allweddol o fewn cyd-destun bywyd go iawn. Mae cwricwlwm Ysgol Melin Gruffydd yn un drawsgwricwlaidd, sydd wedi ei chynllunio i fod yn eang a chytbwys drwy sicrhau statws uchel i bob Maes Dysgu, ac sy'n cwmpasu cysyniadau a nodir yn y datganaidau o'r hyn sy'n bwysig yng 'Nghod yr Hyn sy'n bwysig'. Mae'r cwricwlwm yn tyfu'n briodol gyda'r disgybl drwy daith ei addysg cynradd, ac yn cynnig cyfleoedd niferus dyddiol i wireddu nodweddion y pedwar diben, i gyfathrebu'n effeithiol, i ddatrys problemau, defnyddio technolegau digidol a gwneud cynnydd effeithiol. Y disgybl sydd wrth wraidd ein cwricwlwm ac mae dylanwad y disgybl yn chwarae rôl annatod ynddi. Mae pob dysgwr yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar ddechrau a diwedd themau dysgu, wrth drafod profiadau, wrth fonitro a chraffu ar lyfrau ac wrth ymgymryd â theithiau dysgu drwy'r ysgol. Mae pob disgybl yn dathlu eu hunaniaeth, ac â mynediad i brofiadau cyfoethog, hwyliog ac ysbrydoledig gyda chyfleoedd i

fethrin a dathlu arloeseg, creadigrwydd ac i feddwl yn feirniadol. Rydym yn ysgol sydd yn ymfalchio yn ein gwerthoedd Iechyd a Lles, sydd yn ganolbwynt i fethodoleg ein addysgu. Gweithredwn cwricwlwm sydd yn seiliedig ar athroniaeth meddylfryd twf.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau asesu ar sail tystiolaeth i alluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol. Mi fydd ein cwricwlwm yn cael ei adolygu yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion ein dysgwyr, yn gyfoes ac yn sefyll law yn llaw â gwerthoedd ein gweledigaeth.